



## Bute Energy (#4)

14 Awst 2024

### Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 16 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn:

*I am writing to you to request information about an event that took place at the Senedd on the evening of 9 July, hosted by a Bute Energy and sponsored by the MS for Newport East (Mr Steve Griffiths). I am concerned about some of the arrangements around this event and a lack of transparency. Please respond to the following queries:*

- 1. When was the event requested by Bute Energy? What rationale did the company offer for requesting the event?*
- 2. What title was given to the event at the time it was proposed? On what date was the event listed on the Senedd website? On what date were invites distributed? What was the RSVP date on those invites? On what date was the list of external guests sent to the Senedd for security clearance?*
- 3. On what basis did the member for Newport East sponsor the event? Were any other members of the Senedd involved in the sponsoring or planning of the event on 9 July?*
- 4. All members of the Senedd must be invited to such events. Which MSs responded to the invite and who attended? Did any special advisors, professional support or*

Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff, CF99 1SN  
Ffôn/Tel: 0300 200 6544  
E-bost/Email: [Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru](mailto:Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru)  
[Information-request@senedd.wales](mailto:Information-request@senedd.wales)

*ancillary staff attend the event? Were community groups invited to the event? What was the geographical distribution of those in attendance (did they represent a broad swathe of Wales or just a limited geography)?*

*5. Why was the title of the event changed on the Senedd website less than twenty four hours prior to its start time? Who requested this change and why? Was this change communicated to those who had confirmed their attendance?*

*6. What food and beverage package was selected for the event and were members of the Senedd who attended required to pay for their own refreshments?*

*7. Please provide a schedule for the event. What format did the event take? How many presentations were there? Who spoke and with what authority did they speak (i.e. what was their expertise in that domain)?*

*8. Were photos permitted to be taken within the event? Was special dispensation granted to the organisers to do so? Were press invited to the event? Finally, I would like you to respond to the following questions relating to the terms and conditions for external organisers of events hosted on the Senedd Estate:*

*1. Why did this event take place in the Senedd atrium? Your terms and conditions state that this space is reserved for events that 'showcase Welsh excellence and/or having explicit links with politics'. Why was the event not hosted at the Pierhead which is explicitly reserved as an "issues" focused building where campaigns, community initiatives and relevant artefacts are given a platform'.*

*2. Point 3.4 of the event terms and conditions state that invitations to such events must not include the Senedd's logo. Please share with me a copy of the invitation distributed by Bute Energy.*

*3. How did the event meet point 4.3.i of the Senedd event bookings terms and conditions? Was it 'clearly and broadly aligned to Members' parliamentary functions'? Or was it reflective of the 'pattern of the business week' in the Senedd?*

Gweler ein hymateb isod.

*1. When was the event requested by Bute Energy? What rationale did the company offer for requesting the event?*

Gofynnwyd am y digwyddiad ar 19 Hydref 2023. Roedd i fod i gael ei gynnal yn wreiddiol ym mis Chwefror 2024, ond gofynnodd y trefnwyr am gael newid y dyddiad i haf 2024.

Nodir y nodau a'r amcanion isod:

The Climate Emergency is the greatest challenge of our time. We must act now for future generations. In 2019, following a debate in the Senedd the Welsh Government declared a Climate Emergency. Since then, Wales has legislated to reduce greenhouse gas emissions to net zero by 2050. As a source of energy, onshore wind is the most mature of all renewable technologies, and as a result is the most cost-effective and shovel-ready choice for power generation in Wales. It is one of the most deployable and lowest-cost electricity generation technologies, and is cheaper than gas, nuclear, and coal. Whilst Wales does not have a technology specific target for onshore wind, the Welsh Government has set a target for 100% of electricity demand to be met by renewable energy by 2035. According to polling commissioned by RenewableUK in 2022, there is significant support for renewables. 74 – 88% of people in Welsh constituencies are supportive of onshore wind and 80 – 90% are supportive of having renewable energy projects in their local area – depending on constituency. Wales has been generating onshore wind at a commercial scale for over 30 years and now has around 1.3GW of onshore wind generating power to the grid. This is enough to power over 800,000 homes. Who are Bute Energy? Cardiff-based developer Bute Energy's Community Benefits Vision is informed and underpinned by detailed social mapping work. The company uses primary and secondary research to map the need of communities closer to their proposed Energy Parks to allow them to prioritise hyper-local investment priorities for each community. A unique approach in the UK, this is a live and evolving process and is responsive to changing community needs over time. The mapping of communities helped to identify five key strategic themes for positive impact when considering renewable energy projects with communities nearby: Social Mobility: creating work opportunities, engaging with youth, and more. Education: Providing renewable energy education to local institutions. Recreation and Health: Enhancing access to recreational and health activities. Environment and Culture: Promoting local Welsh culture, heritage, and environmental projects. Cost of Living: Collaborating to address the cost-of-living crisis, with a focus on energy efficiency. The five themes now form the basis for the Bute Energy Social Value Strategy, and alongside ongoing research and community engagement, will help target Bute Energy's Community Investment - which will total up to £800m through the lifetime of their project portfolio. Aims of a Senedd reception: In Wales we want to be pioneering in doing business differently and this event will celebrate how renewable energy investment will bring benefits to communities across Wales. The

evening will celebrate the partnerships that we have developed in communities and promote our Social Value Strategy.

2. *What title was given to the event at the time it was proposed? On what date was the event listed on the Senedd website? On what date were invites distributed? What was the RSVP date on those invites? On what date was the list of external guests sent to the Senedd for security clearance?*

Y teitl a roddwyd pan gynigiwyd y digwyddiad oedd Derbyniad Bute Energy/Bute Energy Reception. Rhestrywd y digwyddiad ar y wefan fis cyn dyddiad y digwyddiad.

Cymeradwywyd y gwahoddiadau gan dîm y Senedd ar 23 Mai 2024 a chan swyddfa'r Aelod o'r Senedd a oedd yn noddi'r digwyddiad, John Griffiths AS. Cafodd Bute Energy wybod eu bod wedi'u cymeradwyo ar yr un diwrnod. Gan fod gwahoddiadau'n cael eu hanfon yn uniongyrchol gan y trefnydd (Bute Energy yn yr achos hwn), nid oes gan Gomisiwn y Senedd gofnod o'r union ddyddiad y cawsant eu hanfon. Felly, nid yw'r wybodaeth hon gennym. Y dyddiad RSVP ar y gwahoddiadau oedd 26 Mehefin 2024. Rhannwyd rhestr y gwesteion allanol gyda rhai aelodau o staff mewnol/rhanddeiliaid er gwybodaeth.

3. *On what basis did the member for Newport East sponsor the event? Were any other members of the Senedd involved in the sponsoring or planning of the event on 9 July?*

Mater i'r Aelod yw penderfynu ar ba sail y mae'n noddi unrhyw ddigwyddiad, yn unol â thelerau ac amodau'r Senedd. Dyma ddolen i'r rhan berthnasol o'n gwefan: [Telerau ac Amodau \(senedd.cymru\)](#). Nid oedd unrhyw Aelod arall yn rhan o noddi na chynllunio'r digwyddiad.

4. *All members of the Senedd must be invited to such events. Which MSs responded to the invite and who attended? Did any special advisors, professional support or ancillary staff attend the event? Were community groups invited to the event? What was the geographical distribution of those in attendance (did they represent a broad swathe of Wales or just a limited geography)?*

Cofrestrodd dau Aelod o'r Senedd i fynychu'r digwyddiad drwy'r weithdrefn RSVP swyddogol, sef Janet Finch-Saunders AS, a Llyr Griffiths AS. Ni allwn gadarnhau a oeddent yn bresennol ai peidio gan nad yw'r wybodaeth honno gennym. Weithiau, mae Aelodau o'r Senedd yn mynchu digwyddiadau heb ymateb i'r RSVP. Ni chofrestrodd yr un ymgynghorydd arbennig, aelod o staff cymorth proffesiynol nac aelod o staff atodol i

fynychu'r digwyddiad drwy'r broses RSVP. Ni allwn gadarnhau a fynychodd unrhyw un o'r unigolion hyn y digwyddiad ai peidio gan nad yw'r wybodaeth honno gennym.

Y trefnydd, sef Bute Energy, oedd yn ymdrin â rhestr y gwesteion. Gan hynny, nid oes gennym wybodaeth ynghylch a gafodd grwpiau cymunedol wahoddiad i'r digwyddiad ai peidio, ac ni allwn ychwaith wneud unrhyw sylw am ddosbarthiad daearyddol y rhai a gafodd wahoddiad i'r digwyddiad.

5. *Why was the title of the event changed on the Senedd website less than twenty four hours prior to its start time? Who requested this change and why? Was this change communicated to those who had confirmed their attendance?*

Ar 8 Gorffennaf 2024, cysylltwyd â thîm archebu'r Senedd, i gwestiynu cywirdeb y manylion a oedd wedi'u cyhoeddi ar y calendr cyhoeddus. Yn dilyn trafodaethau â swyddfa'r Aelod a oedd yn noddi'r digwyddiad a Bute Energy, newidiwyd teitl y digwyddiad i "Strategaeth Sgiliau Sero Net Bute Energy". Bute Energy oedd yn gyfrifol am anfon y gwahoddiadau, felly ni wyddom a gafodd gwahoddiad diwygiedig ei anfon.

6. *What food and beverage package was selected for the event and were members of the Senedd who attended required to pay for their own refreshments?*

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'r cais hwn.

7. *Please provide a schedule for the event. What format did the event take? How many presentations were there? Who spoke and with what authority did they speak (i.e. what was their expertise in that domain)?*

Gweler amserlen y digwyddiad isod.

1800 – 1845

Cyrraedd, rhwydweithio, lluniaeth

1845 – 18.50

Croeso, Cyflwyniadau i John Griffiths AS

1850 – 1900

Y cyd-destun – John Griffiths AS

1900 – 1910

## Cyflwyniad i Bute Energy – Beth a Pham

**1910 – 1920**

Buddsoddiad Cymunedol Bute Energy gyda chyflwyniad i'r fideo

**1920 – 1925**

Fideo Bute Energy

**1925 – 1930**

Negeseuon allweddol y strategaeth a diweddglo

**1930 – 2000**

Rhwydweithio a lluniaeth

Roedd fformat y digwyddiad fel y nodir yn yr amserlen uchod.

Nid oedd unrhyw gyflwyniadau. Roedd sleid sefydlog, gyda delwedd, a fideo.

Y trefnydd, sef Bute Energy, oedd yn ymdrin â chynnwys y digwyddiad, gan gynnwys y rhai y gofynnwyd iddynt siarad. Yr Aelod sy'n noddi sy'n gyfrifol am gynnwys a phwnc trafod y digwyddiad. Yn ôl yr amserlen a gyflwynwyd gan y trefnydd, siaradodd yr Aelod a oedd yn noddi, John Griffiths AS, yn y digwyddiad.

Ni allwn ddatgelu pwy oedd y siaradwyr eraill gan fod y wybodaeth hon yn cyfrif fel data personol, a byddai ei datgelu'n mynd yn groes i un neu ragor o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data fel y mae'n gymwys yn y Deyrnas Unedig (GDPR y DU). Felly, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Rhoddir manylion llawn yngylch pam y mae'r eithriad hwn wedi'i gymhwys o yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

*8. Were photos permitted to be taken within the event? Was special dispensation granted to the organisers to do so? We're press invited to the event?*

Caniateir tynnu lluniau ym mhob digwyddiad yn y Senedd a noddir gan Aelod oni bai bod y trefnydd wedi nodi'n benodol na ddylai hynny ddigwydd. Hyd y gwyddom, ni wnaed unrhyw gais o'r fath.


Nid yw'r Senedd yn gyfrifol am restr y gwesteion ar gyfer digwyddiadau a noddir gan Aelodau ac ni all gadarnhau a wahoddwyd aelodau o'r wasg ai peidio.

*Finally, I would like you to respond to the following questions relating to the terms and conditions for external organisers of events hosted on the Senedd Estate*

- 1. Why did this event take place in the Senedd atrium? Your terms and conditions state that this space is reserved for events that 'showcase Welsh excellence and/or having explicit links with politics'. Why was the event not hosted at the Pierhead which is explicitly reserved as an "issues" focused building where campaigns, community initiatives and relevant artefacts are given a platform'.*

Canllaw yw hwn yn hytrach na rheol bendant. Nid yw'r Pierhead ar agor gyda'r nos fel arfer. Mae agor y Pierhead ar gyfer digwyddiad yn golygu costau ychwanegol o ran trefniadau diogelwch. Pan fo'r Senedd eisoes ar agor i'r cyhoedd, mae'n aml yn gwneud synnwyr defnyddio'r Senedd fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau fel hyn. Mae cynnal digwyddiadau yn y Senedd ar nosweithiau pan fo'r Senedd wedi cynnal Cyfarfod Llawn hefyd yn ei gwneud yn haws i'r Aelodau fynychu'r digwyddiadau hynny. Roedd dyddiad y digwyddiad, 9 Gorffennaf 2024, yn ddiwrnod Cyfarfod Llawn.

- 2. Point 3.4 of the event terms and conditions state that invitations to such events must not include the Senedd's logo. Please share with me a copy of the invitation distributed by Bute Energy.*



Ni allwn ddatgelu'r cyfeiriad e-bost RSVP ar waelod y gwahoddiad gan fod y wybodaeth hon yn cyfrif fel data personol, a byddai ei datgelu'n mynd yn groes i un neu ragor o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data fel y mae'n

gymwys yn y Deyrnas Unedig (GDPR y DU). Felly, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Rhoddir manylion llawn yngylch pam y mae'r eithriad hwn wedi'i gymhwys yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

3. *How did the event meet point 4.3.i of the Senedd event bookings terms and conditions? Was it 'clearly and broadly aligned to Members' parliamentary functions'? Or was it reflective of the 'pattern of the business week' in the Senedd?*

Roedd y digwyddiad yn cyd-fynd â swyddogaethau seneddol yr Aelodau.

Yn gywir

**Joanna Grenfell**

**Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth a Dirprwy Swyddog Diogelu Data  
Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno yngylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru  
Llywodraethu a Sicrwydd  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

## **Atodiad**

Mae'r diffiniad o ddata personol wedi'i nodi yn Erthygl 4 o GDPR y DU, sef:

"any information relating to an identified or identifiable person ('data subject'); an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, physiological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person".

Mae'r cais hwn yn cwmpasu enwau siaradwyr unigol a siaradodd yn y digwyddiad dan sylw, yn ogystal â'r cyfeiriad e-bost RSVP ar waelod y gwahoddiad, sy'n cynnwys enw unigolyn. Mae hyn yn cyfrif fel data personol yr unigolion hynny.

Wrth asesu a fyddai'n deg datgelu'r wybodaeth dan sylw, rydym wedi ystyried canlyniadau hynny, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw a'r cydbwysedd rhwng hawliau'r unigolion hynny ac unrhyw fuddiant dilys sydd ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth.

Mae datgeliadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhai i'r 'byd yn gyffredinol' ac nid dim ond i'r unigolyn a wnaeth y cais, fel yr eglurir mewn **canllawiau** a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Nid oes disgwyliad gan lawer o'r unigolion y mae'r cais yn eu cwmpasu y bydd eu gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i'r byd yn gyffredinol. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym wedi ymgynghori â threfnydd y digwyddiad, Bute Energy, sydd wedi cadarnhau na ddylid rhannu'r wybodaeth hon.

Pan fo'n rhesymol dod i'r casgliad y byddai disgwyliad gan unigolion i'w gwybodaeth gael ei datgelu, megis cynrychiolwyr etholedig, rydym wedi datgelu eu gwybodaeth bersonol. Mae cynrychiolwyr etholedig yn cyflawni rôl sy'n ymwneud â'r cyhoedd ac maent yn atebol i'r cyhoedd, sy'n golygu bod disgwyliad yr unigolion hynny o ran preifatrwydd yn llai. Nid yw hyn yn wir am unigolion eraill y mae eu data personol wedi'u cwmpasu.

Yn ein barn ni, byddai datgelu'r data personol hyn yn tresmasu'n anghymesur ar fuddiannau, hawliau sylfaenol a rhyddid yr unigolion hynny. Ni fyddai datgelu'r wybodaeth yn ychwanegu at sylwedd ein hymateb i raddau digonol i warantu diystyru'r hawliau a'r rhyddidau sylfaenol hynny. Yn ogystal â gwybodaeth bersonol cynrychiolwyr

etholedig, rydym hefyd wedi datgelu amserlen y digwyddiad yn ôl y gofyn, sy'n cynnwys pynciau trafod a chynnwys eitemau unigol ar yr amserlen honno, a gweddill y gwahoddiad i'r digwyddiad heblaw am y cyfeiriad e-bost RSVP. Yn ein barn ni, mae hyn yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, ac yn bodloni'r buddiant dilys o ran datgelu. Yn unol â'r cais, rydym wedi rhyddhau gwybodaeth arall sy'n ymwneud â gweinyddu a threfnu'r digwyddiad, i'r graddau y bo'r wybodaeth honno gennym, sy'n mynd rywfaint o'r ffordd tuag at alluogi trafod ac atebolrwydd cyhoeddus.

Er gwaethaf fy marn o ran tegwch, euthum ati i ystyried Erthygl 6 o GDPR y DU. Nid yw'r un o'r seiliau cyfreithiol yn Erthygl 6 yn berthnasol, heblaw am Erthygl 6(1)(f), sy'n caniatáu i ddata personol gael eu prosesu ar yr amod a ganlyn:

"processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- rhaid bod buddiant dilys ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth;
- rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol er mwyn bodloni'r buddiant dilys hwnnw; ac
- ni ddylai'r datgeliad ddiystyru buddiannau, hawliau sylfaenol na rhyddid testun y data.

Rydym wedi ystyried yn fanwl y buddiannau perthnasol, sy'n cynnwys: rhwymedigaethau'r Comisiwn o dan GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018; eich hawl i weld y wybodaeth hon; yr unigolion dan sylw a'u hawl i breifatrwydd; a'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth hon.

Mae buddiant dilys cyffredinol ynghlwm wrth sicrhau tryloywder ac atebolrwydd mewn bywyd cyhoeddus. Fodd bynnag, yn ein barn ni, ni fyddai rhoi gwybodaeth bersonol siaradwyr eraill (heblaw am gynrychiolwyr etholedig) i chi yn ychwanegu'n ddigonol at sylwedd ein hymateb i gyfiawnhau diystyru buddiannau, hawliau sylfaenol a rhyddid yr unigolion hynny.

Dyfarnodd yr Uchel Lys yn Swyddog Corfforaethol Tŷ'r Cyffredin v y Comisiynydd Gwybodaeth a Brooke, Leapman ac Ungoed-Thomas [2008] fod rhaid i unrhyw ymyrraeth

fod yn gymesur. Fel yr eglurwyd uchod, mae'r wybodaeth arall a ddarperir mewn ymateb i'ch cais, yn ein barn ni, yn ffordd gytbwys o fodloni'r buddiant dilys a sicrhau ar yr un pryd fod buddiannau, hawliau sylfaenol a rhyddid yr unigolyn yn cael eu diogelu.